



Addasu dulliau asesu technoleg iechyd i hwyluso argymhellion gofal cymdeithasol seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru: Canfyddiadau trafodaeth bwrdd crwn

Crynodeb mewn Iaith Glir

Mae defnyddio technolegau iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol yn rhan bwysig o ddarparu'r gofal gorau i bobl sydd ei angen. Mae asesiad technoleg iechyd (HTA) yn rhoi ffordd wedi'i strwythuro o asesu a yw technoleg neu ffordd o weithio yn ddiogel ac yn rhoi budd i bobl sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn caniatáu asesiad i weld a yw'r buddion yn ddigon i gyfiawnhau'r adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen. Mae yna brosesau a dulliau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer asesu technolegau iechyd ond efallai na fydd y rhain yn gwbl addas ar gyfer asesu technolegau neu ffyrdd o weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae Technoleg Iechyd Cymru (HTW) a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn cydweithio i ddeall sut y gellir addasu HTA i alinio'n well â gofal cymdeithasol. Fel rhan o'r cydweithrediad hwn cynhaliwyd digwyddiad bwrdd crwn ym mis Mai 2021 a ddaeth ag arweinwyr o'r llywodraeth, meysydd polisi, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, asiantaethau HTA, a phrifysgolion ynghyd. Trafododd y cyfranogwyr pa addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud HTA yn fwy priodol ar gyfer gofal cymdeithasol a sut y gallai hyn gael ei gefnogi yng Nghymru.

Yn ystod y digwyddiad bwrdd crwn trafodwyd cyfres o themâu allweddol. Yn gyntaf, pwysleisiodd cyfranogwyr y dylai pobl sy'n gweithio o fewn HTA fod yn ymwybodol o'r heriau o fewn gofal cymdeithasol a fydd yn effeithio ar waith yn y maes hwn. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â darparu gofal wedi'i ddad-ganoli a darniog, trosiant staffio, a chysylltiadau llai datblygedig rhwng gofal cymdeithasol ac amgylcheddau ymchwil. Yn ail, amlygodd cyfranogwyr fod angen dull mwy hyblyg i sicrhau bod buddion sy'n gysylltiedig â



chanolbwyntio ar yr unigolyn, urddas a pharch, a galluoedd yn cael eu sicrhau a bod tystiolaeth byd go iawn o leoliadau ymchwil a rhai nad ydynt yn ymchwil yn cefnogi gwneud penderfyniadau. Bydd angen ystyried hefyd sut y gall arfarnu economaidd gefnogi asesiadau o werth gan ddefnyddio dulliau wedi'u haddasu. Yn drydydd, bydd angen ymdrechion i sicrhau bod cynrychiolaeth amrywiol o leisiau o faes gofal cymdeithasol, i gefnogi sgysiau parhaus am addasiadau sy'n deillio o'r bwrdd crwn hwn ac i lywio arfarniadau ac arwain y broses o wneud penderfyniadau yn y tymor hwy. Yn olaf, roedd cyfranogwyr yn glir bod yn rhaid i HTA gefnogi newid o fewn gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod partneriaid yn prynu i mewn yn barhaus. Bydd angen i asiantaethau HTA ystyried sut mae canllawiau'n cael eu cyfathrebu er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dylent archwilio sut y gellir hyrwyddo a mesur cyfraddau mabwysiadu canllawiau.

Bydd Technoleg Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn defnyddio'r canfyddiadau hyn, a chanfyddiadau o ddiwyddiadau eraill, er mwyn parhau i gydweithio a symud tuag at sicrhau bod dulliau a phrosesau HTA yng Nghymru yn briodol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Rhagymadrodd

Mae galw cynyddol am ofal cymdeithasol ac mae COVID-19 wedi tanlinellu'r angen i drawsnewid gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl. Agwedd bwysig ar hyn yw sicrhau bod arloesiadau sy'n gwella ansawdd gofal ac sy'n caniatáu i ofal gael ei ddarparu'n fwy effeithlon yn cael eu blaenoriaethu a'u rhoi ar waith.



Fel yr amlygwyd gan '[Cymru Iachach](#)'¹, mae angen dwyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd i gefnogi dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a lles. Fel rhan o hyn, mae angen i ddulliau asesu technoleg iechyd (HTA) ar gyfer asesu gwerth a gwneud argymhellion ar gyfer cyllido fod yn hygyrch a chefnogi arloesiadau mewn gofal cymdeithasol². Fodd bynnag, ychydig o ystyriaeth a roddwyd i weld a yw dulliau a phrosesau HTA yn briodol ar gyfer gofal cymdeithasol a, hyd yma, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn Lloegr yw'r unig asiantaethau HTA cenedlaethol sydd wedi datblygu canllawiau gofal cymdeithasol³. Felly mae angen archwilio heriau a chyfleoedd arfarnu ymyriadau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Technoleg Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn cydweithio i archwilio pa mor briodol yw dulliau a phrosesau HTA ar gyfer arfarnu ymyriadau gofal cymdeithasol. Fel rhan o hyn, cynhaliodd HTW a Gofal Cymdeithasol Cymru ddigwyddiad bwrdd crwn i gael mewnwediadau ac arbenigedd i gefnogi'r cydweithio hwn. Cynhaliwyd hwn ym mis Mai 2021 gan ddwyn ynghyd arweinwyr meddwl o'r llywodraeth a meysydd polisi, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, HTA, a'r byd academiaidd. Roedd y digwyddiad ar ffurf cyflwyniadau gan arbenigwyr pwnc ynglŷn â rôl arfer seiliedig ar dystiolaeth mewn gofal cymdeithasol a'r cyd-destun ar gyfer HTA a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yna trafodaeth wedi'i hwyluso rhwng cyfranogwyr. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r trafodaethau a'r mewnwediadau a gafwyd ar y berthynas rhwng HTA a gofal cymdeithasol,

¹ Llywodraeth Cymru (2018). [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#). Llywodraeth Cymru. 2018

² I gael rhagor o fanylion am HTA, gweler [Asesiad Technoleg Yechyd: Yr Hanfodion](#) o Becyn Cymorth Academi Cleifion Ewrop

³ Enzing et al. (2020). [Broadening the application of health technology assessment in the Netherlands: a worthwhile destination but not an easy ride?](#) *Health Economics, Policy and Law*. Cyhoeddwyd ar-lein.



pa mor briodol yw'r dulliau a'r prosesau presennol, ac addasiadau posibl. Mae'r canfyddiadau'n ymwneud yn bennaf â Chymru ond gallant hefyd lywio'r cyd-destun HTA a gofal cymdeithasol yn ehangach.

Wynebu Heriau a Defnyddio Adnoddau Presennol

Thema a gododd dro ar ôl tro trwy'r digwyddiad bwrdd crwn oedd yr angen i gydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu gofal cymdeithasol, a'r anawsterau y byddai'r rhain yn eu cyflwyno i HTA.⁴ Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn optimistaidd bod rhwydweithiau a systemau yn bodoli a allai helpu i gefnogi arfarniadau mewn gofal cymdeithasol a bod cyfleoedd gwirioneddol i HTA gefnogi newid. Mae'r heriau hyn a'r atebion posibl yn debygol o groestorri nifer o'r canfyddiadau a drafodir isod ond mae'n bwysig tynnu sylw atynt cyn ystyried materion sy'n ymwneud â phroses a dulliau HTA.

Her allweddol yw natur ddarniog gofal cymdeithasol ac roedd cyfranogwyr yn awyddus bod y rhai sy'n gweithio ym maes HTA yn deall yr heriau y mae hyn yn ei beri. Mae darpariaeth gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael ei chydlynu'n gryf yn ganolog o nifer gyfyngedig o fyrddau iechyd a chyrrff comisiynu lleol. Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei gydlynu gan 22 awdurdod lleol a'i ddarparu gan dros 2000 o ddarparwyr o wahanol feintiau ac ethos. Yn yr un modd, er bod gan y GIG weithlu sy'n weddol sefydlog, mae trosiant sylweddol o staff a lefel uchel o swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol. Cyfeiriodd cyfranogwyr at gartrefi preswyl a oedd wedi gweld trosiant o 70% dros ychydig fisoedd. Mae

⁴ The King's Fund (2018). [Key challenges facing the adult social care sector in England](#)



problemau trosiant wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hynny'n debygol o barhau.

Tynnodd cyfranogwyr sylw hefyd at heriau o'r gwahaniaeth rhwng modelau iechyd a gofal cymdeithasol a fyddai'n berthnasol i HTA. Mewn gofal cymdeithasol, mae ymyriadau yn aml yn cael eu rhoi mewn pecynnau gofal ac maent yn fwy hylifol a deinamig nag mewn iechyd. Mae yna hefyd fwy o heterogenedd ar draws pobl a allai elwa gan ymyriad a'r effeithiau posibl y gallai ymyriad eu cael. Yn ogystal, mae gwahaniaethau hefyd yng nghefnidir gweithwyr proffesiynol. Ym maes iechyd cefnogir HTA yn aml gan weithwyr proffesiynol mewn rolau clinigol-academaidd sydd ag arbenigedd sy'n pontio ymchwil ac ymarfer. Ym maes gofal cymdeithasol mae llai o gysylltiadau rhwng y byd academaidd ac ymarfer ac awgrymwyd bod cefnogaeth i gymwysterau lefel gradd Meistr ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Er mwyn ymateb i'r heriau penodol o ran gofal cymdeithasol, mae angen i HTW ystyried sut i ddiffinio a gweithredu ymyriadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r model gofal cymdeithasol, sut i gyfathrebu canllawiau mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'u perthnasedd a'u dylanwad mewn gofal cymdeithasol, a sut i gefnogi'r ecosystem gofal cymdeithasol ehangach.

Er gwaethaf yr heriau hyn, amlygodd cyfranogwyr fod cyfoeth cynyddol o wybodaeth ac arbenigedd ar ofal cymdeithasol seiliedig ar dystiolaeth ledled y Deyrnas Unedig ac mae gan nifer o grwpiau rôl mewn cefnogi neu ddarparu argymhellion ynglŷn â darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Croesawodd cyfranogwyr gydweithredu rhwng HTW a'r rhwydweithiau hyn i sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu a bod dysgu'n cael ei rannu a chydweithio yn digwydd. Yng Nghymru, gellir cael at gyllid ac ysgoloriaethau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol trwy'r Academiau Dysgu Dwys newydd. Mae



trafodaethau'n mynd rhagddynt hefyd ynglŷn ag adeiladu galluedd ymchwil ym maes gofal cymdeithasol gan gyllidwyr ymchwil ledled y Deyrnas Unedig, gyda nifer o fentrau diweddar eisoes ar waith yn Lloegr. Dros y tymor hwy, gallai hyn helpu i leihau rhwystrau a chynyddu cyfleoedd i'r eithaf.

Deall Gofynion Tystiolaeth ac Addasu Arfarnu Economaidd

Mae HTA yn dibynnu ar asesiad strwythuredig o dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a gwerth am arian gofal⁵. Yn draddodiadol, mae hyn wedi'i gysylltu â hierarchaeth dystiolaeth ganfyddedig, gydag astudiaethau sy'n defnyddio dulliau rheoledig ar hap yn cael blaenoriaeth dros dystiolaeth o ffynonellau mwy ansoddol. Rhoddwyd mwy o bwyslais hefyd ar rai mathau o arfarniadau economaidd ac mae arfarniadau fel arfer yn defnyddio persbectif cul gyda dim ond costau gofal a ariennir gan y GIG yn cael eu hystyried⁶. Roedd cyfranogwyr yn glir y dylid ystyried priodoldeb hyn ar gyfer gofal cymdeithasol a bod angen dull y gellir ei addasu.

Amlygodd cyfranogwyr fod canfyddiad y gall HTA fod yn or-ddibynnol ar dystiolaeth treialon rheoledig ar hap. Am nifer o resymau, mae'n annhebygol y bydd dreialon rheoledig ar hap ar gael ar gyfer cefnogaeth a ddarperir mewn gofal cymdeithasol a bydd dystiolaeth yn dod o amrywiaeth o ffynonellau. Roedd cyfranogwyr yn awyddus y dylai data a gesglir mewn lleoliadau byd go iawn, mewn mentrau ymchwil a heb fod yn ymchwil, lywio'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys canlyniadau "meddalach" sy'n cynrychioli lles, galluoedd a

⁵ Banta (2009). [What is technology assessment?](#) *International Journal of Technology Assessment in Health Care*, 25, S1

⁶ I gael rhagor o fanylion am arfarniad economaidd, gweler [Arfarniad Economaidd mewn HTA](#) o Becyn Cymorth Academi Cleifion Ewrop



nodau yr unigolyn lle maent ar gael. Efallai y bydd angen i wybodaeth hefyd ddod o dystiolaethau pobl sy'n darparu gofal a'r rhai sy'n defnyddio gofal a chymorth. Soniodd cyfranogwyr hefyd na ddylai HTA anwybyddu enillion i ansawdd gofal, o ran canolbwyntio ar yr unigolyn ac urddas a pharch, a dylid mesur ac ystyried y rhain ochr yn ochr ag effeithiolrwydd clinigol ac o ran cost. Mae'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn yn y sail dystiolaeth yn cynnwys yn hanesyddol llai o gysylltiadau rhwng gofal cymdeithasol a'r byd academiaidd a natur darpariaeth ymyriadau mewn gofal cymdeithasol. Trafodir y rhain yn fanylach uchod. Pwysleisiodd cyfranogwyr sydd â phrofiad o gynnal arfarniadau o ofal cymdeithasol fod angen i ofynion tystiolaeth fod yn hyblyg ac ystyried yr holl ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael ond bod angen iddynt gadw dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth a all wahaniaethu rhwng ymyriadau gwerth uchel ac isel.

Yna bu'r cyfranogwyr yn trafod materion yn ymwneud ag economeg iechyd, a chytunwyd bod asesu gwerth ac effeithiolrwydd cost yn bwysig mewn HTA. Fodd bynnag, dywedodd rhai bod angen bod yn ofalus i sicrhau bod hyn yn briodol ar gyfer gofal cymdeithasol. Roedd cyfranogwyr yn bryderus y gallai defnyddio arfarnu economaidd gyflwyno ffocws ar y buddion a'r costau i'r GIG a byddai angen ymdrechion i sicrhau ffocws cyfartal ar wella ansawdd bywyd a rhoi'r gallu i bobl sy'n cyrchu gofal cymdeithasol. Hefyd, awgrymwyd efallai na fydd canlyniadau a adroddir yn gyffredin gan gleifion a mesurau profiad a adroddir gan gleifion a ddefnyddir yn ystod HTA yn sicrhau'r buddion yn ddigonol ac yn aml nid ydynt ar gael o dystiolaeth y byd go iawn. Yn fwy eang, amlygodd cyfranogwyr na ddylai asesu gwerth olygu bod ymyriadau cost isel yn cael eu dad-flaenoriaethu gan rai cost uwch. Codwyd hefyd y tensiwn rhwng y fframwaith a ddefnyddir mewn HTA, lle mae gwerth yn cael ei bennu gan



effeithiolrwydd cost ar draws poblogaeth gyfan, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae gwerth yn cael ei ystyried ar lefel yr unigolyn.

Bydd angen i asiantaethau HTA ystyried lefel y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i wneud argymhellion ar ymyriadau gofal cymdeithasol a'r goblygiadau sydd gan hyn i ymyriadau eraill sy'n dod o fewn eu cylch gwaith. Yn yr un modd, bydd angen i asiantaethau benderfynu pa mor briodol yw hi i ehangu'r persbectif ar gyfer arfarnu economaidd ac effaith hyn ar ddehongli'r trothwyon a dderbynnir yn gyffredin. Yn y DU, credir yn nodweddiadol bod y trothwy hwn rhwng £20,000 a £30,000 fesul blwyddyn bywyd wedi'i addasu yn ôl ansawdd (QALY) a enillir ond mae'n amrywiol yn ôl nodweddion ymyriadau a'r poblogaethau sy'n cyrchu gofal⁷. Mae profiadau yn Lloegr yn awgrymu y gellir lliniaru'r materion hyn trwy sicrhau bod dull pragmatig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arfarnu economaidd a bod ymyriadau'n cael eu blaenoriaethu yn unol â meini prawf priodol. Amlygwyd bod NICE wedi ymrwymo i gynnwysoldeb cynyddol gwahanol fathau o dystiolaeth a'u bod wedi ymrwymo i gynnwys dulliau cymysg. Mae NICE hefyd wedi mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth trwy gomisiynu tystiolaeth sylfaenol a fydd yn gallu llywio arfarniadau gofal cymdeithasol.

Yng Nghymru, mae HTW yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth fel mater o drefn yn ystod arfarniadau, gan gynnwys adolygiadau systematig, astudiaethau ar hap ac arsylwadol, astudiaethau ansoddol, tystiolaeth y byd go iawn, a thystiolaeth gan y cyhoedd, cleifion a gofawyr. Mae'n ymddangos bod y dull hwn yn addas iawn ac yn addasadwy i'r materion tystiolaeth a godwyd yn y digwyddiad bwrdd crwn a bydd HTW yn ystyried sut y gall weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth mewn modd amserol a gwybodus.

⁷ I gael rhagor o fanylion am blwyddyn bywyd wedi'i addasu yn ôl ansawdd, gweler [Mesur ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd \(HRQoL\)](#) o Becyn Cymorth Academi Cleifion Ewrop



Sicrhau Cynrychiolaeth Lleisiau Amrywiol o Ofal Cymdeithasol

Mae gan asiantaethau HTA brosesau amrywiol ar gyfer cynnal arfarniad a gall y rhain ryngweithio â gofal cymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd. Canolbwyntiodd y drafodaeth bwrdd crwn ar briodoldeb prosesau HTW. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r modd y mae HTW yn mynd ati i nodi ac yn bwrw ymlaen ag arfarniadau a theimlwyd y gellid addasu'r prosesau hyn ar gyfer gofal cymdeithasol⁸. Un mater allweddol a drafodwyd oedd yr angen i sicrhau cynrychiolaeth gan leisiau ar draws maes gofal cymdeithasol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr fod yn rhaid i arfarniadau gael eu llywio gan safbwyntiau ystod o gynrychiolwyr o faes gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwahanol fathau o rolau proffesiynol, pobl sy'n cyrchu gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, awdurdodau lleol, y trydydd sector, a darparwyr preifat. Bydd gan bob un o'r rhain bersectif pwysig ac ni ddylid anwybyddu arbenigedd pobl sy'n cyrchu gofal. Pwysleisiodd cyfranogwyr y gall HTA a mentrau tebyg ymddangos yn afloyw a phell ac efallai y bydd angen gwaith i sicrhau nad yw hynny'n rhwystr i gynrychiolwyr o'r grwpiau hyn. Awgrymodd cyfranogwyr sydd â phrofiad o ddod â'r arbenigedd hwn i brosiectau eraill y dylid cwmpasu a threialu dulliau newydd yn ymwneud â hygyrchedd. Gall y rhain gynnwys gweithgorau llai, ffyrdd cytunedig o weithio i gefnogi cymorth gofalwyr, a meddwl yn eang am ystyr hygyrchedd mewn gofal cymdeithasol.

Mae gan HTW sawl pwyllgor sy'n cynorthwyo i sicrhau gwaith o ansawdd uchel a chytuno ar argymhellion ar gyfer pob arfarniad⁹. Bydd angen archwilio'r rolau ychwanegol sydd eu hangen ar y pwyllgorau hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod cynrychiolaeth briodol yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Yn ogystal, mae gan HTW grŵp sefydlog cynnwys y cleifion

⁸ I gael rhagor o fanylion am brosesau HTW, gweler [Ein Proses Arfarnu](#) ar wefan HTW

⁹ Gellir cael gwybodaeth am bob un o bwyllgorau HTW yn [adran Amdanom ni](#) gwefan HTW



a'r cyhoedd sydd eisoes yn cynnwys safbwyntiau gofal cymdeithasol. Mae'r grŵp sefydlog hwn yn penderfynu ar ddull priodol ar gyfer ymgynghori ehangach ar gyfer pob arfarniad ac mae mewn sefyllfa dda i sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cynnwys. Gwnaed cyfranogwyr yn ymwybodol o'r bartneriaeth barhaus rhwng HTW a Gofal Cymdeithasol Cymru a fydd yn cefnogi'r gwaith o droi canfyddiadau'r bwrdd crwn yn gamau gweithredu. Rhan allweddol o hyn fydd gweithio gyda'n gilydd a gyda phartneriaid ym maes gofal cymdeithasol i sicrhau bod arddull a chynnwys ein gwefan yn hygyrch ac i roi cyhoeddusrwydd ac esboniad i'n gwaith mewn ffordd ddealladwy. Teimlai'r cyfranogwyr fod y bartneriaeth hon yn ddatblygiad cadarnhaol.

Roedd cyfranogwyr yn glir y dylid cynnwys gofal cymdeithasol plant o fewn cylch gwaith asiantaethau HTA ac fe'u calonogwyd bod gan HTW ymrwymiad i sicrhau bod ymyriadau o bob elfen o ofal cymdeithasol yn cael eu hystyried. Mae HTW hefyd wedi ymrwymo i weithio ar draws lle bynnag y darperir gofal cymdeithasol, gan gynnwys yn y gymuned, cartrefi preswyl a thai â chymorth, ac mewn lleoliadau iechyd, ac i boblogaethau ag anghenion gwahanol. Sicrheir cynrychiolaeth briodol ar gyfer y cyd-destun penodol sy'n cael ei arfarnu ar draws y cylch gwaith hwn.

Gweithio Tuag at Fabwysiadu a Chefnogi Newid

Er mwyn i HTA gyflawni ei nodau, mae angen i ganllaw arwain at newidiadau mewn ymarfer a chododd cyfranogwyr faterion yn ymwneud â lledaenu a mabwysiadu canllawiau fel rhywbeth o bwys mawr. Adroddwyd bod teimlad o fewn gofal cymdeithasol eisoes bod lefelau uchel o alw am ymgynghori ynghylch amrywiol fentrau. Fodd bynnag, prin fu'r newid mewn ymateb i'r ymgynghoriadau ac mae teimladau cynyddol o flinder a risgiau i ymgysylltu. Er



mwyn i bartneriaid mewn gofal cymdeithasol brynu i mewn yn barhaus, byddai angen sicrwydd bod mewnbwn arbenigol yn cyfrannu at broses sy'n arwain at newidiadau mewn arferion ac sy'n rhoi budd i bobl sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Amlygodd cyfranogwyr y byddai angen i HTW deilwra'r gwaith o fonitro cyfraddau mabwysiadu ar gyfer gofal cymdeithasol i fod yn llwyddiannus a dylai ystyried pa randdeiliaid y mae angen i'r canllawiau eu cyrraedd a sut y dylid cyflwyno gwybodaeth. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ganllawiau gyrraedd rheolwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau perthnasol a byddai angen i wybodaeth ategol egluro beth mae canllaw'n ei olygu i leoliadau unigol a'r potensial ar gyfer buddion. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen i ganllawiau gyrraedd timau gofal awdurdodau lleol fel y gellir cynnwys ymyriadau mewn cynlluniau gofal. Efallai bod rôl hefyd ar gyfer newid o'r gwaelod i fyny gyda gwybodaeth am ymyriadau gwerth uchel a ddarperir trwy rwydweithiau proffesiynol a hyfforddiant.

Mae gan HTW fandad i fonitro mabwysiadu canllawiau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi a'i nod yw cynyddu effaith ein gwaith i'r eithaf. I gefnogi hyn, ar hyn o bryd mae HTW yn gweithio gyda phartneriaid ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod ein canllawiau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac i asesu a fu newidiadau i ymarfer mewn ymateb i argymhellion. Mae'r gwaith hwn yn hyblyg ac wedi'i deilwra i fanylion pob canllaw oherwydd yr ystod o dechnolegau nad ydynt yn feddyginiaethau y mae HTW yn eu harfarnu. Amlygwyd y bu llwyddiant gyda'r math hwn o ddull yn NICE lle mai'r Ganolfan Cydweithredu ar gyfer Gofal Cymdeithasol oedd y cyntaf i gymryd cyfrifoldeb am ledaenu a mabwysiadu canllawiau. Dywedwyd bod y dull wedi caniatáu i ledaenu a mabwysiadu gael eu hystyried o ddechrau'r arfarniadau ac wedi rhoi rôl barhaus i'r Ganolfan o ran hyrwyddo canllawiau. Fodd bynnag,



teimlwyd fod terfyn i'r cyrhaeddiad posibl a'i bod yn anodd asesu effaith oherwydd yr oedi cyn mabwysiadu a'r her o briodoli newidiadau i ganllawiau.

Bu peth trafodaeth am yr angen i sicrhau bod prosesau HTA yn hwyluso gweithredu arloesiadau yn gyflym ac nad oeddent yn gohirio arloesi'n cael ei ddefnyddio gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod y pandemig COVID-19, bu ysgogiad i fabwysiadu datrysiadau yn gyflym a dylid cynnal y momentwm hwn. Cytunodd y cyfranogwyr y dylai HTA ymgysylltu â phrifysgolion, diwydiant, y trydydd sector i gyflymu datblygiad technoleg ac ysgogi arloesedd i iechyd a gofal cymdeithasol.

Crynodeb

Trefnwyd y digwyddiad bwrdd crwn gyda HTW a Gofal Cymdeithasol Cymru i roi cyfle i arweinwyr meddwl o ystod o sectorau drafod sut y gellir dod â HTA a gofal cymdeithasol ynghyd i gefnogi arloesedd. Trwy drafodaeth, rhoddodd cyfranogwyr fewnwelediadau gwerthfawr a daeth nifer o faterion sydd angen eu hystyried i'r amlwg. Dylai asiantaethau HTA fod yn ymwybodol y bydd heriau ar hyd y ffordd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd sylweddol hefyd i ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli'n barod a sicrhau bod datblygiadau arloesol mewn gofal cymdeithasol yn cael eu cefnogi ac yn arwain at welliannau mewn gofal. Yn fwy penodol, dylai asiantaethau HTA fod yn ystyried yr angen am ddulliau mwy hyblyg ar gyfer tystiolaeth, cynnwys ystod amrywiol o leisiau yn cael cyfle i ddylanwadu ar arfarniadau, a chefnogi mabwysiadu canllawiau a newid mewn ymarfer.

Bydd HTW a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod canfyddiadau o'r digwyddiad bwrdd crwn hwn a digwyddiadau eraill yn cael eu dilyn gan



weithredu a bod addasiadau yn cael eu hadlewyrchu mewn gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae gwaith y bartneriaeth hon eisoes wedi dechrau dangos canlyniadau gyda HTW yn cyhoeddi canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio'r rhaglen Strategaethau ar gyfer Perthnasau ar gyfer gofalwyr pobl sydd â dementia. Yn ogystal, mae HTW a Gofal Cymdeithasol Cymru wrthi'n paratoi ar gyfer Galwad Agored am Bynciau Gofal Cymdeithasol i gefnogi ymwybyddiaeth bellach o waith HTW ac i nodi pynciau gofal cymdeithasol i'w harfarnu.

Cydnabyddiaethau

Mae'r papur hwn yn defnyddio'r cyflwyniadau a roddwyd yn y digwyddiad bwrdd crwn gan Dr Beth Anderson, Dr Annette Bauer a'r Athro Peter Groves, a thrafodaethau a hwyluswyd gan yr Athro Martin Knapp. Cadeiriwyd y digwyddiad bwrdd crwn ar y cyd gan Mick Giannasi a Peter Groves.

Mynychwyd y digwyddiad bwrdd crwn gan gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol: Llywodraeth Cymru; Technoleg Iechyd Cymru; Gofal Cymdeithasol Cymru; ADSS Cymru; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu; Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal; Economeg Iechyd a Gofal Cymru, Prifysgol Abertawe; Academi Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth, Prifysgol Abertawe; Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant, Prifysgol Caerdydd; Partneriaeth Arloesedd Clinigol, Prifysgol Caerdydd; Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru.



Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Gareth Hopkin, Susan Myles a Lisa Trigg, gyda chefnogaeth gan Lauren Elston, Kate Howson a Matthew Prettyjohns. Cefnogwyd y gwaith trefnu ar gyfer y digwyddiad bwrdd crwn gan Caron Potter, Katie McDermott a Rebecca Shepherd.

Dylid ei ddyfynnu fel: Hopkin, G., Trigg, L., Myles, S. (2021). Addasu dulliau asesu technoleg iechyd i hwyluso argymhellion gofal cymdeithasol seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru: Canfyddiadau trafodaeth bwrdd crwn. Caerdydd, Cymru: Technoleg Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae croeso i ddefnyddwyr ddefnyddio a dyfynnu'r ddogfen hon gan ei henwi'n briodol.